

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Ymchwil gymdeithasol

Rhif:

# Effaith Economaidd Canolfannau Croeso yng Nghymru Tachwedd 2012

# **Arolwg Effaith Economaidd Canolfannau Croeso, 2012 Ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru**

**Claire Peate, Beaufort Research Ltd.**

The logo for Beaufort Research, featuring the text "beaufortresearch" in a white, lowercase, sans-serif font, centered within a solid purple rectangular background.

**beaufortresearch**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Sarah Jones/ Kim West

Llywodraeth Cymru

Canolfan QED, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6000

E-bost: [richard.jones71@wales.gsi.gov.uk](mailto:richard.jones71@wales.gsi.gov.uk) / [kim.west@wales.gsi.gov.uk](mailto:kim.west@wales.gsi.gov.uk)

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru

ISBN TBC

© Hawlfraint y Goron 2012

## TUDALEN GYNNWYS

---

1. CRYNODEB GWEITHREDOL.....	1
2. CYFLWYNIAD AC AMCANION .....	3
3. METHODOLEG .....	4
4. PRIF GANFYDDIADAU .....	13
4.1 Proffil o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso (ymchwil sylfaenol).....	13
4.2 Defnyddio Canolfannau Croeso (ymchwil sylfaenol).....	18
4.3 Modelu effaith economaidd .....	25

### ATODIAD

Holiadur - ymchwil sylfaenol gyda defnyddwyr canolfannau croeso

Holiadur - ymchwil ymhlith asiantau rheoli canolfannau croeso

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

---

### **Nod yr ymchwil**

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Beaufort Research mewn cydweithrediad â Houston Economic Consulting i nodi a gwerthuso'r gweithgaredd economaidd ychwanegol sy'n digwydd ar adeg benodol mewn economi lleol o ganlyniad i Ganolfannau Croeso.

### **Methodoleg yr Ymchwil**

Roedd dau gam i'r gwaith, roedd y cam cyntaf yn cynnwys ymgysylltu â sampl gynrychioladol o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso ar draws Cymru er mwyn cyfrifo gwerth mewnbwn Canolfannau Croeso yn ystod eu taith. Roedd yr ail gam yn cynnwys ymchwil desg / modelu effaith economaidd: cymhwysu gwerthusiadau defnyddwyr Canolfannau Croeso i gwmpas defnyddwyr Canolfannau Croeso ar draws Cymru i gyfrifo gwerth cyffredinol effaith defnyddwyr Canolfannau Croeso yn 2012 drwy ddefnyddio ffigurau ymwelwyr o 2011.

### **Prif Ganfyddiadau**

#### **Proffil o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso (ymchwil sylfaenol)**

- **Mae defnyddwyr lleol yn cyfrif am un o bob pump o gwsmeriaid Canolfannau Croeso** gan godi i ddau o bob pump yn Ne Ddwyrain Cymru.
- **Mae Canolfannau Croeso'n denu proffil hŷn o ymwelwyr i Gymru** gyda 58% yn y grŵp oedran 55 +. Dim ond 2% o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso oedd o dan 24 oed ac roedd 7% rhwng 25 a 34 oed.
- **Mae teuluoedd gyda phlant yn y lleiafrif** ymhlith defnyddwyr Canolfannau Croeso gyda bron saith o bob deg o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso ar daith *heb* blant.

#### **Defnyddio Canolfannau Croeso (ymchwil sylfaenol)**

- **Atyniadau yw'r maes gwybodaeth a grybwyllir mwyaf** wedi'i ddilyn gan gyfleusterau a digwyddiadau lleol.
- **Mae trosglwyddo'n uchel** gyda bron tri chwarter o'r rhai sy'n cael gwybodaeth am *leoedd i fwyta ac yfed ac atyniadau* yn mynd ymlaen i ymweld â nhw.

- **Ar gyfer tua chwarter o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso** "ni fyddent yn bendant" wedi ymweld / archebu'r atyniad/llety/ digwyddiad ac ati oni bai am wybodaeth y Ganolfan Groeso.
- **Budd y dyfodol:** ar gyfer dros hanner holl ddefnyddwyr Canolfannau Croeso bydd y wybodaeth a dderbynnir *yn bendant* yn eu hannog i wneud taith yn y dyfodol.
- **Ni fyddai un o bob tri'n barod i dalu am wasanaeth y Ganolfan Groeso** ac ni fyddai 38% arall yn gallu rhoi gwerth ar y gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt.

### Effaith Economaidd Cymru

- Y gwariant ychwanegol gros sy'n gysylltiedig ag ymholiad Canolfan Groeso yw £17.49
- Y gwariant ychwanegol net yw £5.22 yr ymholiad
- Mae 1,622 o swyddi cyfwerth ag amser llawn gros yn gysylltiedig â Chanolfannau Croeso - mae 92% drwy wariant ymwelwyr
- Mae 605 o swyddi FTE ychwanegol net yn cael eu cynnal drwy Ganolfannau Croeso - mae 73% drwy wariant ymwelwyr
- Mae 605 o swyddi FTE ychwanegol net yn cynhyrchu £16.5 miliwn Gwerth Ychwanegol Crynswth.

## 2. CYFLWYNIAD AC AMCANION

---

Comisiynodd Llywodraeth Cymru Beaufort Research mewn cydweithrediad â Houston Economic Consulting i gynnal astudiaeth ymchwil ymhlith defnyddwyr Canolfannau Croeso yng Nghymru yn ystod Awst a Medi 2012.

Nod cyffredinol yr astudiaeth oedd:

**nodi a gwerthuso'r gweithgaredd economaidd ychwanegol yn digwydd ar adeg benodol yn yr economi lleol o ganlyniad i Ganolfannau Croeso**

Yr amcanion penodol oedd:

- Amcangyfrif effeithiau gros y Canolfannau Croeso, er enghraifft nifer y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd neu'r trosiant ychwanegol a gynhyrchwyd drwy - er enghraifft - archebu ystafelloedd ychwanegol, rhagor o bresenoldeb mewn digwyddiadau neu weithgaredd marchnata ychwanegol.
- Penderfynu a yw'r Canolfannau Croeso'n ysgogi ymwelwyr dychwel ac argymhellion
- Penderfynu faint o'r buddion hyn fyddai'n digwydd heb ddarpariaeth y Canolfannau Croeso
- Penderfynu a oes unrhyw effeithiau adleoli, er enghraifft pan fydd yr ymwelydd yn newid gwariant o un busnes lleol i un arall o ganlyniad i Ganolfan Groeso
- Penderfynu a fydd unrhyw fuddion ychwanegol yn digwydd drwy bryniant ar hyd cadwyni cyflenwi, rowndiau gwariant cyflogaion ac effeithiau tymor hwy o ganlyniad i Ganolfannau Croeso.

### 3. METHODOLEG

---

Mae'r Rhwydwaith Gwybodaeth i Dwristiaid yng Nghymru yn cwmpasu pob dull o gyflenwi gwybodaeth. Mae Canolfannau Croeso yn un elfen o'r Rhwydwaith Gwybodaeth i Dwristiaid ac mae'r term hwn yn ymwneud â chanolfannau â staff yn unig. Diffinnir pob ffurf arall ar ddarpariaeth nad yw'n cael ei staffio fel Canolfannau Eraill.

Ar hyn o bryd mae 56 Canolfan Groeso yng Nghymru, a reolir gan 29 Awdurdod Rheoli gwahanol (cyrff cyllido sy'n cynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol). Mae pedwar deg saith Canolfan Groeso ar agor ar hyd y flwyddyn, o'r rhain, mae amserau agor pedair ohonynt yn gyfyngedig. Mae deg Canolfan Groeso'n agor ar sail dymhorol. Yn 2011, deliodd y canolfannau hyn ag ychydig dros 3.3. miliwn o ymholiadau. Mae rhestr o Ganolfannau Croeso Cymru i'w chael yn:

<http://www.visitwales.co.uk/contact-visit-wales/tic's-tourist-information-centres/>

Rhestrir y Canolfannau Croeso a gymerodd ran yn yr arolwg ar dudalen 7 yr adroddiad hwn.

Cafodd y prosiect ei gynnal fesul cam fel a ganlyn:

CAM UN                    Ymchwil Sylfaenol: ymgysylltu â sampl gynrychioladol o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso yng Nghymru i gyfrifo gwerth mewnbwn y Ganolfan Groeso yn ystod eu taith.

CAM DAU                Ymchwil desg/modelu effaith economaidd: cymhwyso gwerthusiadau defnyddwyr Canolfannau Croeso o gam un i gwmpas defnyddwyr Canolfannau Croeso ar draws Cymru er mwyn cyfrifo gwerth cyffredinol effaith defnyddwyr Canolfannau Croeso yn 2012.

Cymhwyso gwariant cyfartalog nwyddau a gwasanaethau Canolfannau Croeso i gyfanswm y Canolfannau Croeso i gyfrifo gwerth cyffredinol effaith weithredol Canolfannau Croeso.

Ymdrinnir â'r dull methodolegol tuag at y ddau gam ar wahân isod, gyda'r ymagwedd tuag at fodelu economaidd yn cael ei esbonio'n llawn.

## CAM UN – YMCHWIL SYLFAENOL

Diffiniwyd cwmpas yr ymchwil ar gyfer yr arolwg fel y rhai a fu mewn cysylltiad â Chanolfan Groeso yng Nghymru (neu ar y gororau yn Lloegr mewn Canolfan Groeso sydd â chysylltiad agos â Chymru). Diffiniwyd defnyddwyr Canolfannau Croeso fel:

- Ymwelwyr wyneb yn wyneb h.y. y sawl sy'n defnyddio'r Ganolfan Groeso yn bersonol
- Ymholiadau ffôn
- Ymholiadau e-bost

Roedd defnyddwyr y Canolfannau Croeso o Gymru, gweddill y DU a thramor.

Y dull ymchwil mwyaf priodol oedd cysylltu â'r tri grŵp o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso dros y ffôn. I gynhyrchu'r sampl i gynnal y cyfweiliadau gofynnwyd i rwydwaith y Canolfannau Cymru gasglu enwau a rhifau ffôn ymholwyr.

Cynhyrchwyd cyfanswm o 1,115 o enwau a rhifau ffôn defnyddiwyd yn y ffordd hon o blith y rhai a gysylltodd â Chanolfan Groeso rhwng 6<sup>ed</sup> Awst a 16<sup>eg</sup> Medi. Cynhaliwyd cyfweiliadau rhwng 15<sup>fed</sup> Awst a 23<sup>ain</sup> Medi 2012

Cynhaliwyd cyfanswm o 600 o gyfweiliadau gyda chwotâu anghymesur wedi'u gosod er mwyn sicrhau rhaniad mor gymesur â phosibl rhwng y pedwar rhanbarth fel a ganlyn. Oherwydd y samplau llai a oedd ar gael i ni nid oedd rhaniad llym  $\frac{1}{4}$  yn y sampl yn bosibl, gyda'r ffigurau ar y diwedd fel a ganlyn:

Gogledd Cymru: 181 cyfweiliad

De Orllewin Cymru: 129 cyfweiliad



De Ddwyrain Cymru: 124 cyfweiliad

Canolbarth Cymru: 166 cyfweiliad

Mae'r holiadur a ddefnyddiwyd wedi'i gynnwys yn yr Atodiad.

Cafodd y ffigurau hyn eu pwysoli'n ôl i adlewyrchu cwmpas ymholwyr Canolfannau Croeso yn seiliedig ar ddata 2011 a ddarparwyd gan y cleient.

Mae'r canlynol yn rhestru'r 56 Canolfan Groeso a ffurfiodd y llinell sylfaen ar gyfer rhwydwaith Canolfan Groeso 2011 at bwrpasau'r asesiad o effaith economaidd<sup>1</sup>. Cyflwynodd y rhai mewn llythrennau italg sampl ar gyfer yr arolwg o ymwelwyr.

**Mae Croeso Cymru (a'r gororau) fel a ganlyn - cyflwynodd y rhai mewn llythrennau italg sampl ar gyfer yr arolwg.**

<b>Gogledd Cymru</b>	<b>Canolbarth Cymru</b>	<b>De Ddwyrain Cymru</b>	<b>De Orllewin Cymru</b>
<i>Aberdyfi</i>	<i>Aberaeron</i>	<i>Y Fenni</i>	<i>Aberdulais</i>
<i>Ynys Môn</i>	<i>Aberystwyth</i>	<i>Ynys y Barri</i>	<i>Caerfyrddin</i>
<i>Betws y Coed</i>	<i>Y Borth</i>	<i>Caerllion</i>	<i>Harbwr Abergwaun</i>
<i>Y Bala</i>	<i>Aberhonddu</i>	<i>Blaenafon</i>	<i>Tref Abergwaun</i>
<i>Y Bermo</i>	<i>Aberteifi</i>	<i>Caerffili</i>	<i>Hwlfordd</i>
<i>Beddgelert</i>		<i>Caerdydd</i>	<i>Llanymddyfri</i>
<i>Caernarfon</i>	<i>Trefyclo</i>	<i>Bae Caerdydd</i>	<i>Llanelli</i>
<i>Conwy</i>	<i>Cei Newydd</i>	<i>Cas-gwent</i>	<i>Aberdaugleddau</i>
<i>Dolgellau</i>	<i>Croesoswallt</i>		<i>Trefdraeth</i>
<i>Harlech</i>	<i>Tref Croesoswallt</i>	<i>Merthyr Tudful</i>	<i>Penfro</i>
<i>Llandudno</i>	<i>Llanandras</i>	<i>Casnewydd</i>	<i>Saundersfoot</i>
<i>Llangollen</i>	<i>Y Trallwng</i>	<i>Porthcawl</i>	<i>Tyddewi</i>
<i>Llanberis</i>		<i>Pen-y-bont ar Ogwr</i>	<i>Abertawe</i>
<i>Yr Wyddgrug</i>			<i>Dinbych-y-pysgod</i>
<i>Porthmadog</i>			<i>Y Mwmbwls</i>
<i>Pwllheli</i>			
<i>Y Rhyl</i>			
<i>Wrecsam</i>			

Mae'r uchod yn dangos bod ymateb da oddi wrth y rhwydwaith Canolfannau Croeso - yn cwmpasu'r rhanbarthau yn ogystal â busnesau o feintiau gwahanol.

<sup>1</sup> Ymunodd Canolfannau Croeso Crucywel a Chwm Elan â'r rhwydwaith Canolfannau Croeso yn 2012. Gwnaeth Cwm Elan hefyd gyfrannu rhai manylion cyswllt ar gyfer ymwelwyr ar gyfer yr arolwg o ymwelwyr. Gadawodd Canolfan Groeso Pen-y-bont ar Ogwr y Rhwydwaith yn 2012.

## CAM DAU - YMCHWIL DESG/ MODELU EFFAITH ECONOMAIDD


Mae'r ymagwedd tuag at gyfrifo effaith economaidd yn seiliedig ar yr asesiad o effaith economaidd:

1. y gwariant ychwanegol y mae defnyddwyr Canolfannau Croeso'n ei wneud o ganlyniad i'r wybodaeth a chyngor a dderbyniant oddi wrth y Ganolfan Groeso
2. gweithgareddau'r Canolfannau Croeso o ran cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol a'u gwariant ar nwyddau a gwasanaethau yn yr economi lleol

Mae'r mewnbynnau ar gyfer (1) a (2) uchod wedi dod o waith arolwg sylfaenol:

1. arolygon ffôn o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso (gweler yr adran flaenorol); a gaiff ei wneud yn gros gan ddefnyddio'r ymholiadau a recordiwyd mewn Canolfannau Croeso yng Nghymru
2. arolygon a ddisbarthwyd i reolwyr yr holl Ganolfannau Croeso yng Nghymru (gweler yr Atodiad)

Crynohir y dull yn y diagram canlynol:



Yr ardal leol yw'r brif ardal o fudd a ddefnyddir ar gyfer y dadansoddiad economaidd, fel diffinnir gan ddefnyddwyr Canolfannau Croeso yn yr arolwg a rheolwyr Canolfannau Croeso ar gyfer rhannau'r astudiaeth yn ôl eu trefn.

Rydym wedi defnyddio'r derminoleg ganlynol

- Effeithiau uniongyrchol - dyma'r effeithiau sy'n ymuned â chyflogaeth uniongyrchol staff Canolfannau Croeso.
- Effeithiau anuniongyrchol - dyma'r effeithiau drwy bryniadau'r gadwyn gyflenwi leol a brynir gan y Canolfannau Croeso yn ogystal â gwariant ar nwyddau a gwasanaethau gan staff Canolfannau Croeso.
- Ychwanegol net - mae hyn yn cyfeirio at yr effeithiau wedi'u haddasu i ystyried:
  - gollyngiad (h.y. buddion sy'n digwydd y tu allan i'r ardal leol o gwmpas y Canolfannau Croeso);
  - dadleoliad ac amnewidiad (h.y. effeithiau sy'n digwydd oherwydd canlyniadau economaidd llai rywle arall yn yr ardal leol);
  - effeithiau anochel (h.y. effeithiau a fyddai wedi digwydd beth bynnag); a
  - lluosyddion (cyfernodau a ddefnyddir i amcangyfrif rowndiau dilynol o effeithiau ar yr economi yn deillio o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol).

Mae'r dull ar gyfer cyfrifo effaith economaidd yn defnyddio tri set o ddangosyddion yn fras:

- gwariant ymwelwyr/gwariant Canolfan Groeso yn yr economi ehangach
- swyddi FTE a gynhelir gan wariant ymwelwyr neu wariant Canolfan Groeso
- gwerth ychwanegol crynswth (GYC) fesul cyflogai

Crynoir pob un o'r rhain isod, gyda rhagdybiaethau ar ffigurau neu feincnodau'n cael eu defnyddio.

### Gwariant ymwelydd/ Canolfan Groeso

Mae'r arolwg o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso'n darparu data cychwynol ar wariant ychwanegol ymwelwyr o ganlyniad i wybodaeth a dderbynnir yn y Ganolfan Groeso, wedi'i ddadansoddi yn ôl categori gwariant (e.e. llety, bwyta allan). Cael gwybodaeth am wariant ymwelwyr yw'r dangosydd canolradd sydd ei angen, y gellir ei defnyddio i amcangyfrif y swyddi cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu creu gan wariant ymwelwyr. Rydym wedi eithrio'r gwariant gan drigolion lleol sy'n defnyddio Canolfannau Croeso gan nad yw hyn yn fewnbwn ychwanegol i'r economi leol.

Yn yr un modd, mae gwariant gan Ganolfannau Croeso yn darparu'r data canolradd pwysig y gellir ei ddefnyddio i gyfrifo'r swyddi cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu creu gan y gwariant hwnnw. Mae data o Asiantau Rheoli wedi ymdrin â 28 o'r 56 Canolfan Groeso yng Nghymru. Mae ffigurau gwariant cyfartalog fesul Canolfan Groeso wedi deillio o hyn a'u cymhwysu i'r Canolfannau Croeso hynny na dderbyniwyd unrhyw ffurflenni oddi wrthynt.

### Swyddi FTE

Mae swyddi cyfwerth ag amser llawn yn deillio o wariant ymwelwyr a ffigurau gwariant Canolfan Groeso. Mae'r asesiad o effaith economaidd yn defnyddio gwariant cyfartalog ymwelydd fesul swydd FTE a gyfrifwyd o Fodel Effaith ar Dwristiaeth ar gyfer 2007<sup>2</sup>. Cymhwysir y ffigur hwn i'r gwariant ychwanegol fesul ymwelydd sy'n deillio o wybodaeth/cyngor a dderbyniwyd yn y Canolfannau Croeso, i roi asesiad o swyddi FTE ychwanegol sy'n cael eu creu.

Cafwyd cyflogaeth staff Canolfannau Croeso oddi wrth Asiantau Rheoli yn ymateb i'w holiadur. Caiff oriau ac wythnosau a weithir gan staff eu trosglwyddo'n swyddi FTE a chaiff y nifer cyfartalog o swyddi FTE fesul Canolfan Groeso eu cymhwysu i'r Canolfannau Croeso hynny na dderbyniwyd ymateb oddi wrth yr Asiantau Rheoli.

Mae Canolfannau Croeso'n prynu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau i gefnogi eu gweithrediad. Mae trosiant cyfartalog fesul ffigur swydd wedi'i gymhwysu i wariant Canolfannau Croeso (ac eithrio costau staff) er mwyn cyfrifo swyddi FTE sy'n cael eu cynnal o ganlyniad i wariant gweithredol Canolfannau Croeso. Mae'r ffigur yn deillio o ddata Ystadegau Cymru ar gyfer cyflogaeth a throsiant yn ôl sector yn 2011 a'r data

---

<sup>2</sup> Dyma'r model diweddaraf sydd ar gael.

diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y grŵp sector 'cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai, bwytaï a chyfathrebu' yn cynrychioli'r diwydiant twristiaeth.

### Gwerth Ychwanegol Crynswth

Mae Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) yn fesur o werth y [nwyddau](#) a [gwasanaethau](#) a gynhrychir mewn ardal, diwydiant neu sector o [economi](#). Mae'r asesiad o effaith economaidd yn defnyddio ffigur GYC 'fesul cyflogai' a gymerwyd o'r Is-gyfrifon Twristiaeth (IGT) a Model Mewnbyn Allbyn Cymru ac yn cymhwysio hyn i nifer y swyddi FTE a gyfrifwyd. Cymhwysir y ffigur hwn i bob swydd FTE a gynhrychir gan wariant ymwelwyr a staff FTE a gyflogir mewn Canolfannau Croeso.

Mae Model Mewnbyn Allbyn Cymru'n rhoi GYC/cyflogai yn ôl categorïau diwydiannau. Mae'r asesiad economaidd yn defnyddio'r categori 'cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd' fel procsi ar gyfer gwariant Canolfannau Croeso ar nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn rhai staff. Cymhwysir GYC y cyflogai ar gyfer y categori hwn i wariant gweithredol y Ganolfan Groeso ar nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn rhai staff. Yn ymarferol mae'r nwyddau a gwasanaethau yn rhychwantu nifer o gategorïau gwahanol y mae rhai â GYC uwch fesul cyflogai nag eraill. Mae GYC ar gyfer manwerthu'n gymharol isel, felly ni ddylai ei ddefnydd fel procsi oramcangyfrif y Gwerth Ychwanegol Crynswth tebygol.

### Ychwanegedd

Rhoddir ystyriaeth i ychwanegedd drwy ystyried tri mater:

- Gollyngiad; cyfran yr effeithiau sydd o fudd i bobl/yr economi y tu allan i ardal darged. Mae'r asesiad o effaith economaidd yn ystyried hyn yng nghyd-destun Cymru
- Effeithiau anochel; cyfran yr allbynnau/canlyniadau a fyddai wedi digwydd beth bynnag. Yng nghyd-destun yr asesiad hwn, cymerir mai gwariant a gweithgaredd yr ymwelydd a fyddai wedi digwydd beth bynnag waeth beth fyddai'r wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth y Canolfannau Croeso
- Dadleoliad; cyfran yr allbynnau/canlyniadau a leiheir yn rhywle arall yn yr ardal targed. Yng nghyd-destun yr asesiad hwn o effaith economaidd dehonglir hwn ar y lefel leol lle y gall gwariant a gweithgaredd yr ymwelydd ddisodli

gwariant/gweithgaredd a fyddai wedi digwydd mewn cyfleuster neu wasanaeth lleol arall. Ni chaiff dadleoliad ei gymhwyso'n benodol i wariant Canolfannau Croeso ar eu gweithgareddau gweithredol gan y cymerwyd na fyddai gwariant y Canolfannau Croeso yn cael ei gymhwyso'n rhywle arall gan awdurdodau rheoli.

Rydym wedi defnyddio'r arolwg o ymwelwyr i Ganolfannau Croeso i gynhyrchu'r cyfeirnodau ychwanegedd a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif yr effaith economaidd net ychwanegol:

- Mae cwestiwn 10c yn archwilio a fyddai ymwelydd y Ganolfan Croeso wedi gwneud rhai gweithgareddau p'un a oeddent wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth Ganolfan Groeso/wedi archebu drwy'r Ganolfan Groeso neu beidio. Rydym wedi defnyddio hyn i arwain yr amcangyfrifon o effeithiau anochel.
- Mae cwestiynau 11, 17, 21, 24, 27 a 30 yn archwilio a oedd y gweithgaredd o fewn ardal leol y Ganolfan Groeso neu beidio. Rydym wedi defnyddio'r rhain i arwain yr amcangyfrifon o ollyngiad.
- Mae cwestiynau 15, 19, 23, 26, 29 a 32 yn archwilio beth fyddai'r ymatebwyr wedi'i wneud yn lle defnyddio'r llely/gweithgaredd y cawsant wybodaeth amdanynt oddi wrth y Ganolfan Groeso. Rydym wedi defnyddio'r rhain i arwain yr amcangyfrifon o ddadleoliad.

### Lluosyddion

Defnyddir lluosyddion yn yr asesiad o effaith economaidd i nodi gwariant anuniongyrchol/anwythol a swyddi anuniongyrchol/anwythol (h.y. yr effeithiau pellach i lawr y ffrwd o wariant ymwelwyr a gwariant Canolfan Groeso drwy'r cadwyni cyflenwi a'r effeithiau pellach i lawr y ffrwd ar swyddi gan wariant y swyddi FTE a grëwyd)

Mae Is-gyfrifon Twristiaeth 2007 yn defnyddio lluosydd ar gyfer cyflogaeth ac mae hwn wedi'i gymhwyso i'r asesiad hwn. Mae Model Mewnbyn Allbyn Cymru'n defnyddio lluosydd cyflogaeth yn sector procsi cyfanwerthu a manwerthu a gymhwysir yn yr asesiad hwn i wariant y Canolfannau Croeso ar nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn staff.

I grynhoi, mae'r cyfeiriadau ar gyfer y modelu economaidd fel a ganlyn:


Ffynhonnell	Defnydd
Ymatebion gwybodaeth Canolfan Groeso/Asiant Rheoli	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflogaeth</li> <li>• Gwariant ar nwyddau a gwasanaethau</li> </ul>
Arolwg Defnyddwyr Canolfannau Croeso	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwariant ymwelwyr</li> <li>• Ychwanegedd</li> </ul>
Model Effaith Twristiaeth Cymru 2007	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwariant cyfartalog yr ymwelydd fesul swydd FTE</li> </ul>
Data sector cyflogaeth a throsiant Ystadegau Cymru 2011	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trosiant cyfartalog fesul swydd</li> </ul>
Is-gyfrifon Twristiaeth / Model Mewnbwn Allbwn Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwerth Ychwanegol Crynswth* fesul cyflogai</li> <li>• Lluosyddion</li> </ul>

## 4. PRIF GANFYDDIADAU

### 4.1 Proffil o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso (ymchwil sylfaenol)

Gan na chymhwyswyd unrhyw gwtâu i'r ymchwil o ran o ble y daeth yr ymwelydd mae canlyniadau'r arolwg yn fras yn gynrychioladol o gwmpas defnyddwyr y Canolfannau Croeso. Ar draws pob Canolfan Groeso yng Nghymru (gan gynnwys dwy ganolfan ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr) roedd ychydig dros un ym mhob pump (21%) yn ystyried eu hunain i fod yn 'lleol'<sup>3</sup>. Cododd hyn i dros ddau ym mhob pump (44%) yng Nghanolfannau Croeso De Ddwyrain Cymru (gweler Siart 1, isod).

#### Siart 1



Mae Siart 1 hefyd yn dangos y tebygrwydd rhwng proffil defnyddwyr Canolfannau Croeso a phroffil y sawl yn ymweld â Chymru yn eu cyfanrwydd (Arolwg Ymwelwyr Cymru 2011) Mae'r gyfran uwch o ymwelwyr o dramor yn Arolwg Ymwelwyr Cymru i'w phriodoli i hwb i'r sampl ymhlith y segment hwn.


<sup>3</sup> Gadawyd y diffiniad o "lleol" i ddisgrisiwn yr ymatebydd - boed yn ddefnyddwyr Canolfannau Croeso (ymchwil sylfaenol) neu awdurdod rheoli (ymchwil desg/ modelu economaidd). Cymerwyd y penderfyniad hwn gan nad oes unrhyw ddiffiniad pellter ffurfiol o "lleol" yn bodoli.



Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod ymwelwyr "lleol" yn cael eu heithrio o fodelu effaith economaidd yn ddiweddarach yn yr adroddiad (Adran 4.3), ar y sail nad yw eu gwariant yn ychwanegol i'r economi leol a bod ffigurau gwerth yn seiliedig ar y rhai o bellach i ffwrdd gan fod y rhain yn ffurfio sail marchnad darged y Ganolfan Groeso.

Gan edrych ar broffil defnyddwyr Canolfannau Croeso mae Siart 2, isod, yn dangos bod tueddiad clir tuag at ddemograffeg hŷn gyda bron tri ym mhob pump (58%) yn 55+ oed. Mae hyn yn cymharu â 41% ar draws proffil yr ymwelwyr i Gymru.

## Siart 2



Dim ond 2% o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso ar draws Cymru oedd yn iau na 24 oed, ac roedd 7% pellach yn 25-34 oed.


Gan edrych yn rhanbarthol, mae gan Dde Ddwyrain Cymru y proffil hynaf o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso gyda 61% yn y grŵp oedran 55+, o'i gymharu â Chanolbarth Cymru lle'r oedd 54% yn 55+ oed.

Yn gyfan gwbl roedd dros draean (38%) o ymwelwyr i Ganolfannau Croeso yn ystyried eu hunain i fod *wedi ymddeol*: cododd hyn i 41% o holl ymwelwyr i Ganolfannau Croeso yn Ne Ddwyrain Cymru. Pobl wedi ymddeol yw'r cyfrannau mwyaf ymhlith

ymwelwyr 'lleol' (54% wedi ymddeol) tra bod y rhai o weddill y DU yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth (29% wedi ymddeol).


Yn gysylltiedig â'r agwedd hon o broffil defnyddwyr Canolfannau Croeso roedd yr ymchwil hefyd yn archwilio p'un a oedd defnyddwyr Canolfannau Croeso ar daith gyda phlant. Mae Siart 3 yn dangos bod bron i saith ym mhob deg (69%) ar daith yng Nghymru heb blant: yr uchaf yw De Ddwyrain Cymru (roedd 74% ar daith i Gymru heb blant). Efallai bod hyn yn adlewyrchiad o'u hoedran.

### Siart 3



Gyda chyfrannau mor uchel o ymwelwyr heb blant efallai nad yw'n syndod mai'r maint cyfartaledd ar gyfer grwpiau defnyddwyr Canolfannau Croeso (gan gynnwys yr ymatebwyr) yw 2.7 (Siart 4, isod) gyda 18% yn gyffredinol yn teithio ar eu pen eu hunain a 58% ar daith gydag un person arall.


#### Siart 4



Yn ddiddorol mae 4% o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso mewn parti mawr gyda chwech neu ragor: ychydig yn uwch yng Nghanolbarth Cymru (mae 6% mewn parti gyda chwech neu ragor).

Roedd yr ymchwiliad hefyd yn edrych ar y gyfran o ymwelwyr a oedd ar daith undydd neu daith dros nos yng Nghymru (DS aros dros nos yng Nghymru). Mae'r canlyniadau yn y siart canlynol yn dangos bod defnyddwyr Canolfannau Croeso'n gwyro tuag at ymwelwyr sy'n aros: mae 63% o ymwelwyr yn aros yng Nghymru o'i gymharu â 46% o'r holl ymwelwyr sy'n aros sy'n dod i Gymru.

## Siart 5




Ymhlith y rhai a oedd ar daith a oedd yn cynnwys o leiaf un arhosiad dros nos yng Nghymru roedd y mwyafrif mewn llety (79%) y talwyd amdano - hynny yw, nid oeddent yn aros gyda ffrindiau neu berthnasau neu yn eu llety eu hunain.

## 4.2 Defnyddio Canolfannau Croeso (ymchwil sylfaenol)

Y maes gwybodaeth y gofynnwyd amdano mwyaf ymhlith defnyddwyr Canolfannau Croeso oedd *atyniadau* gyda bron tri ym mhob pump (59%) yn gofyn am wybodaeth yn y maes hwn. Dilynwyd hyn gan *gyfleusterau lleol* (a oedd yn cynnwys canolfannau hamdden, siopau, theatrau, sinemâu, llyfrgelloedd a pharciau lleol) gyda 33% yn crybwyll y maes hwn.

### Siart 6



Rhoddwyd y rhestr o ffynonellau posibl o wybodaeth a ddanogsir yn Siart 6 fel rhestr i'r ymatebydd (h.y. darllenwyd y rhestr yn uchel iddynt). Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn gallu ychwanegu eu meysydd gofyn am wybodaeth eu hunain a'r rhai a grybwyllwyd fwyaf o'r rhain oedd *teithiau cerdded/ llwybrau beicio/ mapiau* gyda bron un ym mhob pump yn crybwyll y maes hwn yn ddigymell. Mae'n debygol y byddai'r gyfran hon yn uwch pe bai hwn wedi'i gynnwys yn y set wreiddiol o opsiynau.


Gan edrych ar geisiadau am wybodaeth yn ôl oedran defnyddwyr Canolfannau Croeso:

- Mae defnyddwyr iau Canolfannau Croeso (y sawl dan 44 oed) yn llawer mwy tebygol am ofyn am wybodaeth am *weithgareddau y telir amdanynt* - fel caiaacio, marchogaeth ceffylau ac ati a *chyfleusterau lleol*.
- Mae defnyddwyr hŷn Canolfannau Croeso (y sawl 65+) yn fwy tebygol o ofyn am wybodaeth am *deithio a thrafnidiaeth*.

Roedd y rhai ar ymweliad dydd i Gymru yn llawer mwy tebygol o ofyn am wybodaeth am *ddigwyddiadau a theithio a thrafnidiaeth* tra bod y rhai a oedd yn aros yng Nghymru'n fwy tebygol o ofyn am wybodaeth am *atyniadau*.

Wedi gofyn am wybodaeth gofynnodd yr arolwg a oedd yr ymatebydd wedi mynd ymlaen i weithredu ar y wybodaeth honno - a oeddent wedi ymweld â/ archebu /defnyddio'r cyfleusterau a oedd wedi'u hawgrymu gan y Ganolfan Groeso. Mae Siart 7 yn dangos cyfran y 'trosglwyddwyr' - hynny yw, cyfran y rhai a aeth ymlaen i ddefnyddio'r wybodaeth roedd y Ganolfan Groeso wedi'i rhoi iddynt.

## Siart 7




Y maes o wybodaeth a gafodd y gyfradd trosglwyddo uchaf oedd *lleoedd i fwyta ac yfed* gyda bron tri chwarter (74%) yn mynd ymlaen i ymweld â lle a awgrymwyd gan y Ganolfan Groeso. Dilynwyd hyn yn agos gan *atyniadau* lle roedd 72% a holodd amdanynt wedi ymweld â nhw.

Mae hyd yn oed y cyfraddau trosglwyddo isaf yn aros yn gadarnhaol iawn gydag ychydig dan hanner o bob ymholiad am wybodaeth am *ddigwyddiadau a gweithgareddau y telir amdanynt* yn arwain at ymweliad/ archeb.

Gofynnwyd i ddefnyddwyr Canolfannau Croeso i ba raddau eu bod yn credu bod y Ganolfan Groeso wedi gwneud gwahaniaeth i b'un a fyddent wedi ymweld/ archebu a rhoddir y canlyniadau yn siart 8.


### Siart 8



Roedd tua chwarter o ddefnyddwyr y Canolfannau Croeso yn credu y byddent *bendant heb* ymweld â'r atyniad/ digwyddiad/ lleoliad i fwyta ac ati os pe na baent wedi cael gwybodaeth oddi wrth y Ganolfan Groeso. Roedd gan *ddigwyddiadau* y lefel uchaf o 'wahaniaeth' gyda thraean (33%) yn dweud y byddent *bendant heb* ymweld â digwyddiad oni bai am gyfraniad y Ganolfan Groeso. Dilynwyd hyn yn agos gan *lety* gydag ychydig dros dri ym mhob deg (31%) yn dweud y byddent *yn bendant heb* archebu eu llety oni bai am y Ganolfan Groeso.

Un elfen a ddalwyd gan yr ymchwili sylfaenol ond *nad oedd yn cael ei gynnwys* yn y cyfrifiadau modelu effaith economaidd oedd *budd y dyfodol* o'r wybodaeth a roddwyd, gyda'r holiadur yn gofyn a oedd y wybodaeth roedd defnyddiwr y Ganolfan Groeso wedi'i derbyn wedi annog defnyddiwr y Ganolfan Groeso i gymryd taith arall i/ yng Nghymru yn y dyfodol. Dangosir y canlyniadau yn siart 9.

### Siart 9




Dywedodd dros hanner (59%) y byddai'r wybodaeth yn *bendant* yn eu hannog i wneud taith arall i/yng Nghymru yn y dyfodol - gyda 23% arall yn dweud y byddai'n *debygol* o wneud gwahaniaeth. Mae'r effaith hon mewn cyfrannau tebyg ar draws y gwahanol is-grwpiau (fel oedran, rhyw, tarddiad a rhanbarth defnyddiwr Canolfan Groeso).

Defnyddir gwybodaeth Canolfan Groeso, ar y cyfan, ar y cyd â gwybodaeth flaenorol y defnyddiwr am y rhanbarth. Dywedodd cyfanswm o 33% o ddefnyddwyr Canolfannau Croeso eu bod yn ategu'r wybodaeth oddi wrth y Ganolfan Groeso gyda *gwybodaeth flaenorol oddi wrth ymweliad blaenorol* a dywedodd 18% arall *nad oedd angen gwybodaeth arnynt*. Dywedodd 18% eu bod yn *byw gerllaw ac felly eisoes yn gwybod*.




## Siart 10



Pan roedd ymatebwyr yn defnyddio gwybodaeth arall, roedd yn bennaf yn *wefannau* (roedd 27% yn defnyddio gwefan) a *chyngor oddi wrth ffrindiau a pherthnasau* (25%).

O ran cael y mwyaf allan o'r daith gofynnwyd i ymatebwyr roi sgôr i'r wybodaeth oddi wrth y Ganolfan Groeso ar raddfa o 1 i 10, lle mae 1 yn cynrychioli ddim yn bwysig o gwbl a 10 yn cynrychioli pwysig iawn. Rhoddwyd gradd wedyn i'r sgoriau yn ôl pwysigrwydd, gyda sgoriau o 9 a 10 yn cael eu graddio fel pwysigrwydd "uchel", a 7 a 8 fel "canolig" ac 1 i 6 fel "isel". Mae'r canlyniadau yn siart 11 yn dangos bod ychydig dros hanner yr holl ymwelwyr i Ganolfan Groeso o'r farn bod y wybodaeth a gafwyd yn haeddu gradd "uchel", yn eu barn nhw o ran cael y mwyaf o'r daith.


## Siart 11



Roedd y rhai oedd ar daith dydd yn fwyaf tebygol o roi gradd i'r wybodaeth oddi wrth Ganolfan Groeso fel pwysig o ran cael y mwyaf allan o'u taith - mae'n debyg oherwydd eu bod yn gyfyngedig o ran amser ac y byddai'r wybodaeth a argymhellwyd wedi chwarae rhan fwy yn eu taith yn ei chyfanrwydd o'i gymharu â rhywun oedd yn aros yn hirach.

Pan ofynnwyd a fyddent yn barod i dalu am y gwasanaethau a dderbyniwyd oddi wrth y Ganolfan Groeso dywedodd mwyafrif llethol o ddefnyddwyr Canolfan Groeso na fyddent yn barod i dalu unrhyw beth, neu nad oeddent yn gallu rhoi gwerth ar y wybodaeth a roddwyd iddynt.

## Siart 12



Y gwerth cymedrig y rhoddodd ymatebwyr (gan gynnwys y rhai a ddywedodd "dim byd") oedd £2.90. Roedd hyn yn amrywio o £4.39 ar gyfer y rhai ar daith dydd i lawr i £2.18 i'r rhai yn aros dros nos.

Mae lluosî'r rhifau hyn i fyny i boblogaeth yr ymwelwyr yn rhoi amcangyfrif o brisiad defnyddwyr cyfan o Ganolfannau Croeso o £6 miliwn.

### 4.3 Modelu effaith economaidd

Mae'r adran hon yn cyflwyno asesiad o effaith economaidd Canolfannau Croeso.

Mae'r asesiad yn cyflwyno:

- Effeithiau uniongyrchol - y gyflogaeth o fewn y Ganolfan Groeso a'r Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC)
- Effeithiau anuniongyrchol:
  - Y gyflogaeth a'r GYC a gynhelir o ganlyniad i wariant ar nwyddau a gwasanaethau gan Ganolfannau Croeso.
  - Y gyflogaeth a'r GYC a gynhelir gan wariant ymwelwyr o ganlyniad i wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth y Canolfannau Croeso.

Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar ddau linydd o waith:

1. Gwybodaeth a gasglwyd oddi wrth Ganolfannau Croeso yng Nghymru am ddata cyflogaeth a gwariant.
2. Gwaith yr arolwg ymwelwyr a drafodir yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

#### 4.3.1 Ardal Budd

Mae'r asesiad yn ystyried y dosbarthiad gofodol o'r effeithiau economaidd ar lefel leol a Chymru. Rydym wedi defnyddio'r ardal leol fel y brif ardal ofodol ar gyfer y dadansoddiad hwn. Noder y cymerir mai dyma'r ddinas/tref/tref atyniad lle y lleolir y Ganolfan Groeso a'r cylch fel diffinnir gan y Ganolfan Groeso a'i hymwelwyr. Nodir y dull ar gyfer yr asesiad o effaith economaidd a'r dangosyddion allweddol a ddefnyddir ar wahân yn y fethodoleg ym mlaen yr adroddiad hwn.

#### 4.3.2 Effeithiau Uniongyrchol

Mae Canolfannau Croeso yn gweithredu gyda chymysgedd o strwythurau staffio gan gyfuno llawn amser, rhan amser a staff achlysurol, i ddarparu'r lefel o staffio sydd ei angen. Mae'r staffio'n uwch yn ystod misoedd yr haf nag yn ystod cyfnod y gaef. Mae ffurflenni a ddychwelwyd oddi wrth Asiantau Rheoli'n rhoi cyfanswm o 122,276 o oriau a weithiwyd gan yr holl staff dros flwyddyn, sef cyfwerth â 62.7 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE)<sup>4</sup>. Ar gyfartaledd felly mae pob Canolfan Groeso'n cyflogi 2.2<sup>5</sup>

<sup>4</sup> Y cyfrifiad yw: 122,276 awr ÷ 52 wythnos ÷ 5 diwrnod yr wythnos ÷ 7.5 awr y dydd.

<sup>5</sup> 62.7 FTEs ÷ 28 Canolfan Groeso

staff FTE. Gan agredu i fyny ar gyfer 56 Canolfan Groeso dyma gyfanswm o gyflogaeth FTE o 123.2.

Y gost gyfartalog fesul swydd staff FTE (yn seiliedig ar gyllidebau ar gyfer staff a roddir yn y ffurflenni) yw £21,048. Yn gyfan gwbl, mae gwariant ar staff Canolfannau Croeso ar draws y 56 Canolfan Groeso o gwmpas £2.6 miliwn.

### ***Effeithiau ar y lefel leol neu Gymru***

Mae ffurflenni'r holiadur yn dangos p'un a wneir gwariant y Canolfannau Croeso ar y penawdau cyllideb gwahanol ar y lefel leol, rhywle arall yng Nghymru neu rywle arall y tu allan i Gymru. Fel y gellir disgwyl mae hyd y gwariant lleol yn amrywiol, gyda'r lefel fwyaf o wariant lleol ar gostau staff. Mae Tabl 1 yn adrodd bod 93.6% o gostau staff yn cael eu nodi fel gwariant yn yr ardal leol, gyda 6.4% yn cael ei wario yn rhywle arall yng Nghymru. Ni chaiff unrhyw gostau staff Canolfan Groeso eu gwario y tu allan i Gymru.

**Tabl 1**

	<b>% gwariant yn yr ardal leol</b>	<b>% gwariant yng Nghymru</b>	<b>% y tu allan i Gymru</b>	<b>% gwariant lleoliad anhysbys</b>
Staff Canolfan Groeso	93.6	6.4	0.0	0.0

### ***Gwerth Ychwanegol Crynswth***

GYC fesul cyflogai<sup>6</sup> i amcangyfrif gwerth ychwanegol crynswth o weithgareddau'r Canolfannau Croeso ar wariant Canolfannau Croeso eraill ar nwyddau a gwasanaethau a'r swyddi y mae hyn yn eu cynnal.

**Tabl 2**

<b>GYC Gros a gynhyrchir o swydd FTE uniongyrchol</b>	<b>GYC lleol</b>	<b>GYC mewn manau eraill yng Nghymru</b>	<b>GYC y tu allan i Gymru/ anhysbys</b>	<b>Cyfanswm GYC Gros</b>
Staff FTE Canolfannau Croeso	£2,894,030 <sup>7</sup>	£198,290	£0	£3,092,320

<sup>6</sup> Y ffigur GYC fesul cyflogai a ddefnyddir yw £25,100

<sup>7</sup>Y cyfrifiad yw GYC fesul cyflogai x 'Nifer y FTEs' x gwariant yn yr ardal leol h.y. 25,100 \* 123.2 \* 0.936

### 4.3.3 Effeithiau Anuniongyrchol

Y gwariant cyfartalog fesul Canolfan Groeso, a ddeillir o'r ffurflenni, yw £69,698. Mae cyfanswm gwariant y 56 Canolfan Groeso felly tua £3.9 miliwn.

#### ***Effaith FTE ar wariant ar nwyddau a gwasanaethau Canolfannau Croeso***

Mae cyfran sylweddol o wariant Canolfan Groeso i'w phriodoli i gostau staff (66.4%) fel y trafodir uchod. Gwariant Canolfan Groeso ar nwyddau a gwasanaethau eraill (33.6%)<sup>8</sup> yn ymdrin â:

- Prynu stoc (16.7%)
- Nwyddau traul fel papur swyddfa (1.5%)
- Costau llety Canolfan Groeso - rhent, ardrethi, cyfleustodau (10.6%)
- Gwasanaethau eraill e.e. glanhau (1.2%)
- Yswiriant (0.3%)
- Costau offer (0.6%)
- Costau eraill e.e. gwisgoedd staff (2.7%)

Bydd cyfanswm y gwariant (nad ydynt yn staff) o £1,309,900 yn cefnogi swyddi gyda chyflenwyr. Gan ddefnyddio cyfartaledd o £103,900 o drosiant yn cynnal un swydd FTE a hefyd yn cynnwys effeithiau lluosyddion, byddai'r lefel hon o wariant yn cynnal 16.4 swydd FTE<sup>9</sup>.

#### ***Effeithiau gwariant Canolfannau Croeso ar nwyddau a gwasanaethau ar lefel leol neu lefel Cymru***

Mae ffurflenni holiaduron yn dangos a yw gwariant Canolfan Groeso ar benawdau cyllideb gwahanol yn cael ei wneud ar lefel leol, rhywle arall yng Nghymru neu rywle y tu allan i Gymru. Fel y gellir disgwyl mae hyd y gwariant lleol yn amrywiol. Mae Tabl 3 yn crynhoi cyfran y gwariant yn ôl categori ar gyfer holl wariant Canolfan Groeso ar nwyddau a gwasanaethau.

---

<sup>8</sup>Awgrymodd rhai ffurflenni fod rhai elfennau o wariant fel yswiriant yn digwydd drwy brynu canolog ac nid ydynt yn rhan o gyllidebau Canolfannau Croeso/ maent yn anhysbys i'r Asiant Rheoli. Mae'n bosibl y bydd rhai elfennau o dangynrychioli cyllidebau.

<sup>9</sup> Cyfrifiad: (Cyfanswm y gwariant ÷ trosiant cyfartalog) x swyddi lluosydd o 1.3. h.y. £1,309,000/£103,900 x 1.3

**Tabl 3**

	<b>% gwariant yn yr ardal leol</b>	<b>% gwariant yng Nghymru</b>	<b>% y tu allan i Gymru</b>	<b>% gwariant lleoliad anhysbys</b>
Stoc ar werth	39.7	46.6	13.7	0.0
Nwyddau Traul	47.8	33.0	10.0	9.3
Rhent/Ardrethi/Cyfleustodau	63.9	9.1	17.3	9.7
Gwasanaethau eraill	93.4	6.6	0.0	0.0
Yswiriant*	0.0	21.9	17.4	60.6
Offer*	16.7	50.1	4.4	28.8
Arall*	54.0	9.9	15.4	20.7

\*noder na chwblhawyd y categorïau hyn ym mhob ffurflen; er enghraifft mae awdurdodau'n prynu'r rhain drwy systemau prynu canolog nad yw asiantau rheoli'n gwybod amdanynt. Mae'r ffigurau hyn felly'n seiliedig ar ymateb mwy cyfyngedig.

Gan gymhwyso'r cyfrannau hyn i wariant Canolfannau Croeso nad ydynt yn ymwneud â staff yn ôl categori (wedi'i gyfartalu ar gyfer pob Canolfan Groeso) a'r swyddi FTE y gallent eu cynhyrchu<sup>10</sup> mae'n dangos mai'r effeithiau swyddi gros o weithgareddau Canolfannau Croeso (heblaw am staffio) fyddai 12.6 swydd FTE. Crynhoir hyn yn nhabl 4.

**Tabl 4**

Swyddi FTE Gros	<b>Cyflogaeth leol</b>	<b>Cyflogaeth yng Nghymru</b>	<b>Cyflogaeth y tu allan i Gymru/anhysbys</b>
Cyfanswm Swyddi FTE	6.3	3.7	2.6

\*noder ei bod yn bosibl na fydd y ffigurau hyn yn adio oherwydd talgrynnu.

<sup>10</sup> Gan ddefnyddio'r ffigur trosiant cyfartalog o £103,900 yn cynnal un swydd FTE

## **Gwerth Ychwanegol Crynswth o wariant Canolfan Groeso ar Nwyddau a Gwasanaethau**

Defnyddir GYC fesul cyflogai i amcangyfrif y gwariant gwerth ychwanegol gros o weithgareddau'r Canolfannau Croeso ar wariant arall Canolfannau Croeso ar nwyddau a gwasanaethau a'r swyddi y mae hyn yn eu cynnal.

**Tabl 5**

GYC Gros a gynhyrchir o swyddi FTE	GYC lleol	GYC mewn mannau eraill yng Nghymru	GYC y tu allan i Gymru/ anhysbys	GYC gros
Gwariant arall Canolfannau Croeso ar nwyddau a gwasanaethau FTE	£150,220 <sup>11</sup>	£88,220	£61,990	£300,430

### **Ychwanegedd o Weithgareddau Canolfannau Croeso**

Yn nhermau ychwanegedd, gwneir y rhagdybiaethau canlynol:

- Gollyngiad; ystyrir gwariant y tu allan i Gymru fel gollyngiad ac felly fe'i hanwybyddir o effeithiau economaidd
- Effeithiau anochel; fe'i gwelir fel sero gan y cymerir na fyddai unrhyw beth wedi digwydd pe na bai'r Canolfannau Croeso yno
- Dadleoliad; fe'i gwelir fel sero gan y cymerir bod asiantau rheoli wedi dyrannu cyllideb y Ganolfan Groeso at bwrpasau Canolfannau Croeso. Felly nid yw'n dadleoli gwasanaethau eraill

Ar y sail hon ystyrir cyflogaeth y tu allan i Gymru fel gollyngiad ac felly nid yw'n effaith economaidd o Ganolfannau Croeso i Gymru. Nodwyd cyflogaeth FTE lle nad yw'r lleoliad yn hysbys fel gollyngiad at bwrpasau'r asesiad economaidd hwn.

<sup>11</sup> Mae'r cyfrifiad hwn yn defnyddio GYC cyfartalog fesul cyflogai o £23,844. Y cyfrifiad yw GYC fesul cyflogai x nifer y swyddi FTE h.y. £23,844 x 6.3



Cymhwyswyd lluosyddion hefyd:

- Mae effaith anuniongyrchol yn codi o wariant ar gostau staff drwy effeithiau pellach i lawr y ffrwd ar swyddi gan wariant staff Canolfannau Croeso (swyddi FTE anuniongyrchol/anwythol) Amcangyfrifir hyn ar 24.7 swydd FTE<sup>12</sup>. O hyn cynhyrchir 23.1 FTE yn yr ardal leol a'r 1.6 FTE sy'n weddill yn rhywle arall o fewn Cymru
- Mae effaith anuniongyrchol yn codi o effeithiau pellach i lawr y ffrwd o wariant Canolfannau Croeso ar nwyddau a gwasanaethau eraill. Amcangyfrifir hyn ar 3.8 FTE<sup>13</sup> y cynhyrchir 1.9 yn yr ardal leol, 1.1. FTE yn rhywle arall yng Nghymru a 0.8 FTE y tu allan i Gymru.

Felly gellir crynhoi effeithiau cyflogaeth net ar gyfer Cymru o weithgareddau Canolfannau Croeso:

**Tabl 6**

FTE net (uniongyrchol ac anuniongyrchol/anwythol)	<b>Cyflogaeth leol</b>	<b>Cyflogaeth rhywle arall yng Nghymru</b>	<b>Cyfanswm cyflogaeth yng Nghymru</b>
Staff Uniongyrchol Canolfannau Croeso FTE	115.3	7.9	123.2
Staff Anuniongyrchol/anwythol Canolfannau Croeso FTE	23.1	1.6	24.7
Gwariant arall Canolfannau Croeso ar nwyddau a gwasanaethau FTE	8.2	4.8	13
<b>FTE Net</b>	<b>146.6</b>	<b>14.3</b>	<b>160.9</b>

<sup>12</sup> Gan ddefnyddio lluosydd o 1.2

<sup>13</sup> Gan ddefnyddio lluosydd o 1.3

Mae GYC net a gynhyrchir yng Nghymru yn £4.2 miliwn y cynhyrchir 91% ohono o fewn ardal leol y Ganolfan Groeso (yn bennaf oherwydd natur leol cyflogaeth staff y Ganolfan Groeso), fel y cyflwynir yn y tabl canlynol:

**Tabl 7**

GYC net a gynhyrchir odd wrth swyddi FTE	GYC lleol	GYC mewn manau eraill yng Nghymru	Cyfanswm GYC yng Nghymru
Staff Canolfannau Croeso FTE	£2,894,030	£198,290	£3,092,320
Staff Canolfannau Croeso FTE anuniongyrchol/anwythol	£577,300	£40,160	£617,460
Gwariant arall Canolfannau Croeso ar nwyddau a gwasanaethau FTE	£195,520	£114,450	£309,970
GYC Net	£3,666,850	£352,900	£4,019,750

### ***Asesiad o Effaith Economaidd Anuniongyrchol o Wybodaeth a ddarparwyd gan Ganolfannau Croeso i Ymwelwyr***

Yn 2011 roedd 3.8 miliwn o ymholwyr yng Nghanolfannau Croeso Cymru<sup>14</sup>.

Derbyniodd yr ymholwyr hyn wybodaeth am lety, lleoedd i ymweld â nhw (atyniadau masnachol, digwyddiadau, siopau lleol a chyfleusterau eraill) a phethau i'w gwneud (gweithgareddau y telir amdanynt, bwyta ac yfed). Mae darparu'r wybodaeth hon yn arwain at weithgaredd economaidd.

Gan ddefnyddio'r nifer a gofnodwyd o ymweliadau i'r Canolfannau Croeso a gwneud yr addasiadau angenrheidiol ar gyfer defnydd trigolion lleol<sup>15</sup> a maint y grŵp, a defnyddio'r amcangyfrifon gwariant o'r arolwg<sup>16</sup> amcangyfrifir mai cyfanswm y gwariant gros yn yr ardal leol sy'n gysylltiedig â'r wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth Ganolfannau Croeso yng Nghymru yw £67 miliwn, gan gefnogi bron 1,500 o swyddi. Amcangyfrifir mai'r Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) sy'n gysylltiedig â'r gyflogaeth hon yn £37 miliwn.

<sup>14</sup> Yn bersonol a thrwy sianelau eraill.

<sup>15</sup> Nid ystyrir y gwariant gan drigolion lleol fel mewnbyn i'r economi ac felly fe'i heithrir o'r dadansoddiad

<sup>16</sup> Dangosodd canlyniadau arolwg ymwelwyr wariant ychwanegol gros cyfartalog fesul grŵp ymwelydd i'r Ganolfan Groeso o £109

Fodd bynnag, byddai swm sylweddol o'r gwariant hwn wedi digwydd beth bynnag, mae'n debygol o ollwng allan o'r ardal leol o fudd, neu fod yn gysylltiedig â gweithgaredd o fewn ardal y budd. At hyn bydd effeithiau ychwanegol yn deillio o wariant pobl a gyflogir yn y busnesau sy'n wynebu ymwelwyr ac o bryniant y busnes o nwyddau a gwasanaethau. Mae graddfa'r addasiad yn amrywio rhwng gweithgareddau gwahanol ac i raddau llai, rhwng ardaloedd gwahanol o Gymru.

Gan ddefnyddio'r addasiadau penodol i'r astudiaeth ar gyfer effeithiau anochel, gollyngiad a dadleoliad<sup>17</sup>, a lluosyddion o Is-gyfrifon Twristiaeth Cymru 2007, amcangyfrifir mai'r gwariant ychwanegol net sy'n gysylltiedig â'r wybodaeth a dderbynnir oddi wrth Ganolfannau Croeso yw £20 miliwn. Amcangyfrifir ei bod yn cynnal 444 swydd FTE gyda GYC cysylltiedig o £12.5 miliwn. Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r effeithiau gros a net wedi'u cyfleu fel gwariant, FTEs a GYC.

---


<sup>17</sup> Yn seiliedig ar yr ymatebion i arolwg ymwelwyr y Ganolfan Groeso – effeithiau anochel o C10c; gollyngiad o Gwestiynau 11, 17, 21, 24, 27 & 30; a dadleoliad o Gwestiynau 15, 19, 23, 26, 29 & 32

**Tabl 8****Crynodeb o Effeithiau Economaidd o Wybodaeth Canolfannau Croeso**

Crynodeb Cyffredinol	Cymru	Gogledd Cymru	De Ddwyrain Cymru	De Orllewin Cymru	Canolbarth Cymru
Cyfanswm gwariant gros ymwelwyr o ganlyniad i wybodaeth oddi wrth Ganolfan Groeso	£ 67,125,040	£29,074,290	£6,615,075	£23,655,650	£7,780,025
Gwariant gros fesul grŵp o ganlyniad i wybodaeth Canolfan Groeso	£109	£120	£39	£178	£117
FTEs gros a gynhelir	1,489	645	147	525	173
GYC Gros a gynhyrchir	£37,361,980	£16,182,830	£3,681,970	£13,166,800	£4,330,380
Cyfanswm gwariant ychwanegol net o ganlyniad i wybodaeth oddi wrth Ganolfan Groeso	£20,035,210	£8,209,530	£1,436,450	£8,213,280	£2,175,945
Gwariant ychwanegol net fesul grŵp o ganlyniad i wybodaeth oddi wrth Ganolfan Groeso	£33	£34	£8	£62	£33
Swyddi FTE ychwanegol net a gynhelir	444	182	32	182	48
GYC ychwanegol net a gynhyrchir	£12,452,680	£5,102,550	£892,810	£ 5,104,880	£1,352,440


Mae Tabl 8 uchod a Siart 13 isod hefyd yn dangos sut y mae gwahanol ranbarthau o Gymru'n cyfrannu at y cyfanswm. Bydd y gwahaniaethau rhwng y rhanbarthau'n deillio o wahanol lefelau defnyddio Canolfannau Croeso, cyfran y defnyddwyr sy'n lleol a'r mathau o ymholiad ac i ba raddau y mae'r wybodaeth a dderbyniwyd yn arwain at weithgaredd newydd. Mae'r adolygiad cynharach o ganlyniadau'r arolwg yn cyflwyno manylion yr agweddau hyn.

### Siart 13



Mae Siart 14 isod yn dangos sut mae'r gweithgareddau gwahanol y darparodd y Canolfannau Croeso wybodaeth ar eu cyfer yn cyfrannu at yr effaith economaidd cyffredinol. Y cyfranwyr allweddol yw atyniadau a chyfleusterau lleol, wedi'i dilyn gan ddigwyddiadau. Mae llety hefyd yn bwysig, yn enwedig gan ei fod ond yn rhan o ymweliad ymwelwyr sy'n aros.

### Siart 14



Mae Tabl 9 yn cyflwyno gwariant a GYC fesul ymholiad yn y Ganolfan Groeso. Mae hyn yn dangos gwariant gros fesul ymholiad o £17.49. Fel cymhariaeth, y gwariant cyfartalog fesul noson gan ymwelwyr sy'n aros yng Nghymru yw £50 a gwariant cyfartalog ymwelydd dydd yw £29. Unwaith y cymerir ychwanegedd i ystyriaeth, yna mae'r gwariant ychwanegol net yn cael ei leihau i £5.22. Y GYC net fesul ymholiad yw £3.24

**Tabl 9**

	Cymru	Gogledd Cymru	De Ddwyrain Cymru	De Orllewin Cymru	Canolbarth Cymru
Gwariant gros/ymholiad	£17.49	£20.81	£4.90	£31.49	£24.16
GYC gros/ymholiad	£9.73	£11.58	£2.73	£17.53	£13.45
Gwariant ychwanegol net/ymholiad	£5.22	£5.88	£1.07	£10.93	£6.76
GYC ychwanegol net/ymholiad	£3.24	£3.65	£0.66	£6.80	£4.20

#### **4.3.4 Crynodeb Cyffredinol**

Gan dynnu effeithiau economaidd y ddau llyn o ddadansoddiad ynghyd yr effeithiau gros a net ychwanegol yw:

##### ***Effeithiau gros***

Gellir crynhoi effaith economaidd gros Canolfannau Croeso i Gymru fel hyn:

- 1,622 FTE yn cael eu cynnal
- £40.7 miliwn o GYC wedi'i gynhyrchu

O'r rhain, 123 FTEs a £3.09 miliwn GYC yn cael eu cynhyrchu'n uniongyrchol; a 1,499 FTEs a £37.6 miliwn GYC yn cael eu cynhyrchu'n anuniongyrchol (gan weithrediadau Canolfannau Croeso a gwariant ymwelwyr).

### **Effeithiau ychwanegol net**

Byddai rhai o'r effeithiau gros wedi diwyd beth bynnag, neu'n debygol o ollwng allan o ardal leol y budd, neu'n gysylltiedig â newid gweithgaredd o fewn ardal y budd. At hyn bydd effeithiau lluosyddion o rowndiau olynol o wariant yn yr economi leol. Gan addasu'r ffigurau i gymryd y ffactorau hyn i ystyriaeth gellir crynhoi effaith economaidd lleol ychwanegol net Canolfannau Croeso fel hyn:

- 605 FTEs yn cael eu cynnal
- £16.47 miliwn o GYC wedi'i gynhyrchu


O'r rhain, 148 FTE ychwanegol net a £3.7 miliwn o GYC yn cael eu cynhyrchu'n uniongyrchol; a 457 FTE ychwanegol net a £12.76 miliwn o GYC yn cael eu cynhyrchu'n anuniongyrchol (gan weithrediadau Canolfannau Croeso a gwariant ymwelwyr).

**Tabl 10**

<b>Effaith*</b>	<b>Cyfanswm</b>	<b>Uniongyrchol - Gweithrediad Canolfan Groeso</b>	<b>Anuniongyrchol - Gweithrediad Canolfan Groeso</b>	<b>Anuniongyrchol - Gwariant Ymwelwyr</b>
Swyddi FTE Gros	1,622	123	10	1,489
GYC gros	£40.7k miliwn	£3.1 miliwn	£0.25 miliwn	£37.4 miliwn
FTEs Ychwanegol Net	605	148	13	444
GYC ychwanegol Net	£16.5 miliwn	£3.7 miliwn	£0.3 miliwn	£12.5 miliwn

\* ffigurau wedi'u talgrynnu i un lle degol.

I gloi, rydym yn crynhoi'r effeithiau ychwanegol net yn seiliedig ar ein methodoleg effaith economaidd.





# ATODIAD

HOLIADUR A DDEFNYDDIWYD AR GYFER DEFNYDDWYR CANOLFANNAU  
CROESO

**SGRIPT CATI EFFAITH ECONOMAIDD CANOLFANNAU CROESO – TERFYNOL  
(B01251)**

Bore da/ noswaith dda fy enw i yw \_\_\_\_ o Beaufort Research, asiantaeth ymchwil i'r farchnad annibynnol ac aelod o'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Rydyn ni'n cynnal arolwg ymhlith ymwelwyr i Gymru a ddefnyddiodd canolfan groeso. Allwch chi roi ychydig funudau o'ch amser i ateb rhai cwestiynau ynglŷn â'ch profiad gyda'r ganolfan groeso - bydd yr holl atebion y byddwch yn eu rhoi yn cael eu cadw'n gwbl gyfrinachol. I ddiolch i chi am gymryd rhan, byddwn yn cynnwys eich enw mewn raffl i ennill basged o gynnyrch Cymreig werth £100.

C1	<p>Alla i wirio, o ran eich taith ddiweddar yng Nghymru a wnaethoch chi ymweld â chanolfan groeso yn #NODWCH Y LLEOLIAD# yn bersonol, neu gysylltu â nhw dros y ffôn neu drwy neges e-bost?</p> <p style="text-align: right;">Dros y ffôn Drwy e-bost Ymweliad</p> <p style="text-align: right;">Dydw i ddim yn cofio defnyddio canolfan groeso</p>	<p>1 → C2 2 → C2 3 → C3 Dewch â'r sgwrs i ben</p>
C2	<p>Ers eich galwad ffôn/ e-bost i'r ganolfan groeso, ydych chi wedi bod ar daith tra eich bod yng Nghymru?</p> <p style="text-align: right;">Do Naddo</p>	<p>1 → C3 2 Dewch â'r sgwrs i ben</p>
C3	<p>Hoffech chi gymryd rhan yn yr arolwg hwn yn Gymraeg neu'n Saesneg?</p> <p style="text-align: right;">Saesneg Cymraeg</p>	<p>1 2</p>
C4	<p>Ym mha wlad mae eich prif gartref? DARLLENWCH YN UCHEL ydych chi'n...</p> <p style="text-align: right;">Breswlydd lleol (sy'n byw o fewn 10 milltir i'r ganolfan groeso) O rywle arall yng Nghymru Gweddill y DU (yn cynnwys Gogledd Iwerddon) Ewrop Gweddill y Byd</p>	<p>1 2 3 4 5</p>
C5	<p>Yn ystod eich taith ddiweddar yng Nghymru, pan wnaethoch chi ddefnyddio'r ganolfan groeso a oeddech chi ar daith undydd yng Nghymru neu a oeddech chi'n aros dros nos? Os yn aros dros nos a oedd hynny yng Nghymru neu'r tu allan i Gymru?</p> <p style="text-align: right;">Taith undydd Yn aros dros nos yng Nghymru Yn aros y tu allan i Gymru</p>	<p>1 → C9 2 → C6 2 → C9</p>

C6	<p><b>(OS YN AROS DROS NOS YNG NGHYMRU)</b>  Pa fath o lety wnaethoch chi aros ynddo? <b>DARLLENWCH YN UCHEL</b>  Llety y talwyd amdano (gan gynnwys maes gwersylla a maes carafanau)  Gyda ffrindiau neu deulu (neu mewn llety sy'n eiddo iddyn nhw)  Yn eich llety eich hunan (fel ail gartref)</p>	1 2 3
C7	<p>Pa fath o daith ydoedd - gwyliau neu egwyl fer? <b>DARLLENWCH YN UCHEL</b></p>	<p>Gwyliau 1  Egwyl fer 2  Arall 3</p>
C8	<p>Sawl noson wnaethoch chi aros yng Nghymru yn ystod y daith honno?  COFNODWCH Y NIFER _____</p>	
C9	<p><b>GOFYNNWCH I BAWB</b>  Faint o bobl, yn cynnwys eich hun, oedd yn eich grŵp chi ar eich taith ddiweddar i Gymru?  COFNODWCH NIFER YR OEDOLION _____  COFNODWCH NIFER Y PLANT (0-16 OED) _____</p>	
C10a	<p>Gan feddwl am eich cyswllt diweddar â #NODWCH ENW'R GANOLFAN GROESO# pa un o'r pethau canlynol, os o gwbl, gawsoch chi wybodaeth amdanynt ar gyfer yr ymweliad? Dim ond y pethau a oedd <u>yng Nghymru</u> y mae gennym ddiddordeb.  <b>NEWIDIWCH DREFN Y RHESTR - Amlddewis</b></p>	<p>Llety 1  Atyniadau i ymweld â nhw 2  Gweithgareddau â thâl (fel caiacio, merlota, teithiau ar gwch) 3  Lleoedd i fwyta ac yfed 4  Digwyddiadau (fel chwaraeon, gwyliau, ffeiriau, marchnadoedd) 5  Cyfleusterau lleol (siopa/canolfannau hamdden/theatrau/sinema/llyfrgell/parc lleol) 6  Trafnidiaeth a theithio 7  Arall (nodwch) _____ 8 →C35  Ddim yn gallu cofio 9 →C35</p>
C10b	<p>A pha bethau wnaethoch chi ymweld â nhw/ eu trefnu/ fynd iddynt <u>ar ôl cael gwybodaeth gan y ganolfan groeso</u>?  <b>DANGOSWCH Y RHAI A DDEWISWYD YN C10a yn unig Amlddewis</b></p>	<p>Llety 1  Atyniadau i ymweld â nhw 2  Gweithgareddau â thâl (fel caiacio, merlota, teithiau ar gwch) 3  Lleoedd i fwyta ac yfed 4  Digwyddiadau (fel chwaraeon, gwyliau, ffeiriau, marchnadoedd) 5  Cyfleusterau lleol (siopa/canolfannau hamdden/theatrau/sinema/llyfrgell/parc lleol) 6  Trafnidiaeth a theithio 7  Dim 8 →C39  Ddim yn gallu cofio 9 →C39</p>

C10c Pa mor debygol ydyw y byddech chi wedi ymweld â/ trefnu/ mynd i'r rhain pe na baech wedi cael gwybodaeth amdanynt gan y ganolfan groeso? A fydddech chi'n bendant wedi ymweld â nhw beth bynnag, fwy na thebyg wedi ymweld, neu fwy na thebyg ddim wedi ymweld?

**DANGOSWCH Y RHAI A DDEWISWYD YN C10b YN UNIG**

*Bendant wedi ymweld, fwy na thebyg wedi ymweld, neu fwy na thebyg ddim wedi ymweld, bendant ddim wedi ymweld, ddim yn gwybod*

- |   |   |   |
|---|---|---|
|   | Llety   | 1 |
|   | Atyniadau i ymweld â nhw  | 2 |
| Gweithgareddau y talwyd amdanynt (fel caiacio, merlota, teithiau ar gwch) |   | 3 |
|   | Lleoedd i fwyta ac yfed   | 4 |
| Digwyddiadau (fel chwaraeon, gwyliau, ffeiriau, marchnadoedd)             |   | 5 |
|   | Cyfleusterau lleol (siopa/canolfannau hamdden/theatrau/sinema/llyfrgell/parc lleol) | 6 |
|   | Trafnidiaeth a theithio   | 7 |

**LLETY (os cod 1 yn C10b)**

C11	<p><b>(OS CAFWYD GWYBODAETH AM LETY YNG NGHYMURU)</b>          Ble oedd y llety y cawsoch chi wybodaeth amdano...          DARLLENWCH YN UCHEL - COD UNIGOL</p> <p>O fewn ardal leol y ganolfan groeso          Rhywle arall yng Nghymru</p>	<p>1 2</p>
C12	<p>A wnaethoch chi drefnu'r llety drwy'r ganolfan groeso?</p> <p style="text-align: right;">Do Naddo</p>	<p>1 2</p>
C13	<p>Faint o nosweithiau o'ch llety wnaethoch chi eu trefnu o ganlyniad i'r wybodaeth a gawsoch chi, neu drwy'r trefniant a wnaed yn y ganolfan groeso?          COFNODWCH Y NIFER _____</p>	
C14	<p>Beth oedd cyfanswm cost y llety y gwnaethoch ei drefnu o ganlyniad i'r wybodaeth a gawsoch, neu drwy'r trefniant a wnaed gan y ganolfan groeso?          OS DDIM YN GWYBOD/ DDIM YN GALLU COFIO ceisiwch roi amcangyfrif.          COFNODWCH Y NIFER _____</p>	

C15	Pe na baech chi wedi gwneud trefniadau gan ddefnyddio'r wybodaeth a gawsoch gan y ganolfan groeso, neu os na fyddech chi wedi gwneud y trefniadau yn y ganolfan groeso, beth ydych chi'n credu y byddech wedi'i wneud yn lle hynny? DARLLENWCH YN UCHEL	Aros yn rhywle arall yn yr ardal leol	1
		Aros rhywle arall yng Nghymru	2
		Aros rhywle arall y tu allan i Gymru	3
		Ddim wedi aros dros nos	4
		Arall (nodwch) _____	5
		Ddim yn gwybod	6

### ATYNIADAU I YMWELD Â NHW (Os cod 2 yn C10b)

C16	<p><b>(OS CAFWYD GWYBODAETH AM ATYNIADAU I YMWELD Â NHW YNG NGHYMRU)</b></p> <p>Faint o atyniadau a wnaethoch chi ymweld â nhw yng Nghymru yn seiliedig ar awgrym/wybodaeth gan y ganolfan groeso?</p> <p>COFNODWCH Y NIFER _____</p>	
C17	<p>Ac o'r rhain, faint a oedd yn lleol i'r ganolfan groeso?</p> <p>COFNODWCH Y NIFER _____</p>	
C18	<p>Faint oedd y cyfanswm wnaethoch chi ei wario ar yr holl atyniadau y cawsoch chi wybodaeth amdanynt gan y ganolfan groeso? Cofiwch gynnwys yr arian a wariwyd ar y parti cyfan ar yr holl elfennau gan gynnwys tâl mynediad, parcio, bwyd a nwyddau.</p> <p>OS DDIM YN GWYBOD/ DDIM YN GALLU COFIO ceisiwch roi amcangyfrif.</p> <p>COFNODWCH Y NIFER _____</p>	
C19	<p>Pe na baech chi wedi ymweld â'r atyniadau y talwyd amdanynt, beth ydych chi'n credu y byddech wedi'i wneud yn lle hynny? DARLLENWCH YN UCHEL</p> <p>Aros gartref/ mewn llety gwyliau</p>	1
	Ymweliadau cyffredinol	2
	Talu am weithgaredd	3
	Ymweld ag atyniadau eraill	4
	Siopa	5
	Arall (nodwch) _____	6

## GWEITHGAREDDAU Y TALWYD AMDANYNT (os cod 3 yn C10b)

C20	<p><b>(OS CAFWYD GWYBODAETH AM WEITHGAREDDAU Y TALWYD AMDANYNT I GYMRYD RHAN YNDDYNT, YNG NGHYMRU)</b>          Faint o weithgareddau y talwyd amdanynt a wnaethoch chi gymryd rhan ynddynt yn seiliedig ar awgrym/gwybodaeth a gawsoch gan y ganolfan groeso...          COFNODWCH Y NIFER</p>	
C21	<p>Ac ymhlith rhain, faint ohonynt oedd yn lleol i'r ganolfan groeso?           COFNODWCH Y NIFER</p>	
C22	<p>Faint oedd y cyfanswm wnaeth eich grŵp ei wario ar yr holl weithgareddau y talwyd amdanynt, o'r wybodaeth a gawsoch gan y ganolfan groeso?           OS DDIM YN GWYBOD/ DDIM YN GALLU COFIO ceisiwch roi amcangyfrif.           COFNODWCH Y NIFER _____</p>	
C23	<p>Pe na baech wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau y talwyd amdanynt, beth ydych chi'n credu y byddech wedi'i wneud yn lle hynny? <b>DARLLENWCH YN UCHEL</b></p>	<p>Aros adref/ mewn llety gwyliau 1          Ymweliadau cyffredinol 2          Gweithgareddau eraill y talwyd amdanynt 3          Ymweld ag atyniadau 4          Siopa 5          Arall (nodwch) _____ 6</p>

## LLEOEDD I FWYTA AC YFED YNG NGHYMRU (os cod 4 yn C10b)

C24	<p><b>(OS CAFWYD GWYBODAETH AM LEOEDD I FWYTA AC YFED YNG NGHYMRU)</b>          A oedd y lleoedd i fwyta ac yfed y gwnaethoch ymweld â nhw o ganlyniad i gael gwybodaeth gan y ganolfan groeso...          DARLLENWCH YN UCHEL. AML-GODIWCH</p>	<p>O fewn ardal leol y ganolfan groeso 1          Rhywle arall yng Nghymru 2</p>
-----	---	--

C25	Faint oedd y cyfanswm wnaeth eich grŵp ei wario yn y lleoedd i fwyta ac yfed? OS DDIM YN GWYBOD/ DDIM YN GALLU COFIO ceisiwch roi amcangyfrif. COFNODWCH Y NIFER _____	
C26	Pe na baech chi wedi ymweld â'r lleoedd i fwyta ac yfed, beth ydych chi'n credu y byddech wedi'i wneud yn lle hynny? DARLLENWCH YN UCHEL Dod o hyd i rywle arall i fwyta ac yfed yn yr ardal leol Dod o hyd i rywle arall i fwyta ac yfed, rhywle arall yng Nghymru Bwyta gartref/ yn y llety Arall (nodwch) _____	1 2 3 4

### DIGWYDDIADAU (os cod 5 yn C10b)

C27	<b>(OS CAFWYD GWYBODAETH AM DDIGWYDDIADAU YNG NGHYMURU)</b> A oedd y digwyddiadau y gwnaethoch chi ymweld â nhw o ganlyniad i wybodaeth a gawsoch chi gan y ganolfan groeso... DARLLENWCH YN UCHEL. GALLWCH AML-GODIO  O fewn ardal leol y ganolfan groeso Rhywle arall yng Nghymru	1 2
C28	Faint oedd y cyfanswm wnaeth eich grŵp ei wario ar y digwyddiadau y gwnaethoch ymweld â nhw? Cofiwch gynnwys yr arian a wariwyd ar docynnau, bwyd ac unrhyw nwyddau gan gynnwys parcio.  OS DDIM YN GWYBOD/ DDIM YN GALLU COFIO ceisiwch roi amcangyfrif. COFNODWCH Y NIFER _____	
C29	Pe na baech chi wedi ymweld â digwyddiad, beth ydych chi'n credu y byddech wedi'i wneud yn lle hynny? DARLLENWCH YN UCHEL Aros adref/ mewn llety gwyliau Ymweliadau cyffredinol Talu am weithgaredd Ymweld ag atyniad Siopa Arall (nodwch) _____	1 2 3 4 5 6

## CYFLEUSTERAU LLEOL (os cod 6 yn C10b)

<p>C30</p>	<p><b>(OS CAFWYD GWYBODAETH AM GYFLEUSTERAU LLEOL)</b>  A oedd y cyfleusterau lleol (fel y siopau, canolfannau hamdden, theatrau, sinemâu, marchnadoedd ac ati) y gwnaethoch chi ymweld â nhw o ganlyniad i gael gwybodaeth gan y ganolfan groeso...  <b>DARLLENWCH YN UCHEL. GALLWCH AML-GODIO</b></p> <p style="text-align: right;">O fewn ardal leol y ganolfan groeso 1  Rhywle arall yng Nghymru 2</p>	
<p>C31</p>	<p>Faint oedd y cyfanswm wnaeth eich grŵp ei wario ar yr holl gyfleusterau o ganlyniad i'r wybodaeth a gawsoch gan y ganolfan groeso? Cofiwch gynnwys yr arian a wariwyd ar docynnau, bwyd ac unrhyw nwyddau gan gynnwys parcio.</p> <p>OS DDIM YN GWYBOD/ DDIM YN GALLU COFIO ceisiwch roi amcangyfrif.</p> <p>COFNODWCH Y NIFER _____</p>	
<p>C32</p>	<p>Pe na baech chi wedi ymweld â'r cyfleusterau lleol, beth ydych chi'n credu y byddech wedi'i wneud yn lle hynny? <b>DARLLENWCH YN UCHEL</b></p> <p style="text-align: right;">Aros gartref/ mewn llety gwyliau 1  Ymweliadau cyffredinol 2  Ymweld ag atyniad 3  Talu am weithgaredd 4  Arall (nodwch) _____ 5</p>	

## TEITHIO A THRAFNIDIAETH (os cod 7 yn C10b)

	<p><b>(OS CAFWYD GWYBODAETH AM DEITHIO A THRAFNIDIAETH YNG NGHYMRU)</b></p>	
<p>C33</p>	<p>Faint o deithiau ychwanegol yng Nghymru wnaethoch chi o ganlyniad i'r wybodaeth a gawsoch chi gan y ganolfan groeso?  <b>COFNODWCH Y NIFER</b></p>	
<p>C34</p>	<p>Faint oedd y cyfanswm wnaeth eich grŵp ei wario ar deithio a thrafnidiaeth yng Nghymru o ganlyniad i'r wybodaeth a gawsoch gan y ganolfan groeso?</p> <p>OS DDIM YN GWYBOD/ DDIM YN GALLU COFIO ceisiwch roi amcangyfrif.</p> <p>COFNODWCH Y NIFER _____</p>	



C35	<p>GOFYNNWCH I BAWB</p> <p>Ar wahân i'r ganolfan groeso, pa ffynonellau gwybodaeth eraill a wnaethoch chi eu defnyddio? DARLLENWCH YN UCHEL - CYMYSGWCH Y DREFN. GALLWCH AML-GODIO.</p>	<p>Yn byw gerllaw felly roeddwn i'n gwybod eisoes  Gwybodaeth drwy ymweliad blaenorol  Cyngor gan ffrindiau neu aelodau o'r teulu  Tywyslyfrau (e.e. Time Out, Lonely Planet ac ati)  Hysbyseb yn y papur newydd neu gylichgrawn  Cyngor neu argymhelliad gan ddarparwr llety  Gwefan (gan gynnwys apps) nodwch _____  Arall (nodwch) _____  Doedd dim angen gwybodaeth arnaf</p>	<p>1 2 3 4 5 6 7 8 9</p>
C36	<p>Pa mor bwysig oedd y ganolfan groeso wrth sicrhau eich bod yn cael y gorau allan o'ch ymweliad diweddar? Defnyddiwch raddfa rhwng 1 a 10, lle mae 1 = ddim yn bwysig o gwbl a 10 = pwysig iawn.</p>	<p>1 2 3 4 5 6 7 8 9 10 Ddim yn gwybod</p>	
C37	<p>Gan feddwl am y gwasanaethau a gawsoch gan y ganolfan groeso, tua faint, os unrhyw beth, fyddech chi'n fodlon ei dalu am y gwasanaethau hyn?</p> <p>OS NODWYD YSTOD, NODWCH Y PWYNT CANOL</p> <p>COFNODWCH Y NIFER _____</p>		
C38	<p>A wnaeth y wybodaeth a gawsoch gan y ganolfan groeso olygu eich bod wedi aros yn hirach yng Nghymru?</p>	<p>Do Naddo</p>	<p>1→C39a/ b 2→C40</p>
C39a	<p>(YMWELWYR UNDYDD YN UNIG)</p> <p>Am faint o amser ychwanegol wnaethoch chi aros?</p> <p>COFNODWCH YR ORIAU _____</p>		
C39b	<p>(YMWELWYR SY'N AROS)</p> <p>Am faint o ddiwrnodau ychwanegol wnaethoch chi aros?</p> <p>COFNODWCH Y NIFER _____</p>		

C40	A fydd y wybodaeth a gawsoch gan y ganolfan groeso yn eich annog i drefnu taith arall i Gymru yn y dyfodol agos?		
		Bendant	1
		Mae'n debyg	2
		Eithaf annhebygol	3
		Bendant ddim	4
		Ddim yn gwybod	5

**I gloi, hoffwn holi rhai cwestiynau er mwyn gwirio bod gennym sampl gynrychioladol.**

C41	COFNODWCH Y RHYW		
		Gwryw	1
		Benyw	2

C42	GOFYNNWCH I BAWB Alla i ofyn beth yw'ch oedran?		
		O dan 24 oed	1
		25-34	2
		35-44	3
		45-54	4
		55-64	5
		65+	6

C43	Beth yw statws gwaith y prif enillydd incwm yn eich cartref?		
		Gweithio'n llawn amser (dros 30 awr yr wythnos)	1
		Gweithio'n rhan amser (8 - 29 awr yr wythnos)	2
		Mewn addysg lawn amser	3
		Wedi ymddeol	4
		Ddim yn gweithio	5
		Arall	6

C44	Beth yw eu swydd?		
	COFNODWCH _____		

C45	CYFWELYDD I NODI'R DOSBARTH CYMDEITHASOL		
		AB	1
		C1	2
		C2	3
		DE	4

DARLLENWCH YN UCHEL

Diolch am gymryd rhan yn yr arolwg hwn. A fyddech chi'n hoffi i ni gynnwys eich enw mewn raffl i ennill basged o gynnyrch Cymreig werth £100?

OS FELLY, COFNODWCH ENW A CHYFEIRIAD LLAWN

---

DATGANIAD CYMDEITHAS YMCHWIL I'R FARCHNAD.

**HOLIADUR A DDEFNYDDIWYD AR GYFER ASIANTAU RHEOLI CANOLFANNAU  
CROESO**



4. Faint ydych chi'n ei wario ar nwyddau a gwasanaethau Canolfannau Croeso (rhowch naill ffigur £ blynyddol gwirioneddol neu % o gyfanswm y gwariant blynyddol, pa bynnag un sydd hawsaf. (Os ydych yn gweithredu mwy nag un Ganolfan Groeso, rhowch y ffigur ar gyfer eich holl ganolfannau croeso)

<b>Nwyddau a Gwasanaethau</b>	<b>£</b>	<b>%</b>
Stoc ar werth (eitemau rydych yn eu gwerthu yn y Ganolfan Groeso)		
Nwyddau traul (papur swyddfa, inc ac ati)		
Rhent/Ardrethi/Cyfleustodau		
Staff Canolfan Groeso		
Gwasanaethau eraill e.e. ffonau		
Yswiriant		
Offer (e.e. llungopiwr)		
Tâl post		

5. O ble rydych chi'n prynu eich nwyddau a gwasanaethau - yn lleol (o fewn 10 milltir), o fewn Cymru, rhywle arall

<b>Nwyddau a Gwasanaethau</b>	<b>Lleol %</b>	<b>O fewn Cymru %</b>	<b>Rhywle arall %</b>
Stoc ar werth			
Nwyddau Traul			
Rhent/Ardrethi/Cyfleustodau			
Staff Canolfan Groeso			
Gwasanaethau eraill e.e. glanhau			
Yswiriant			
Offer (e.e. llungopiwr)			
Gwisg staff			

Diolch yn fawr iawn am eich cymorth.

Dychwelwch y ffurflen i ENW WEDI'I DDILEU erbyn 29<sup>ain</sup> Awst 2012 fan bellaf.